Datganiad Polisi Cymwysterau Cymru:

Cymhwyso Themâu Trawsgwricwlaidd Cwricwlwm i Gymru i Cymwysterau 14-16 Gwneud-i-Gymru

Mehefin 2023

Datganiad Safbwynt Polisi Cymwysterau Cymru:

Cymhwyso themâu trawsgwricwlaidd Cwricwlwm i Gymru mewn cymwysterau Cymeradwy, Gwneud-i-Gymru ar gyfer dysgwyr 14-16 oed

Cefndir

Cwricwlwm i Gymru

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer pob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.

2. Rhaid i bob ysgol yng Nghymru gynllunio ei chwricwlwm ei hun yn unol â chanllawiau Cwricwlwm i Gymru. Mae'r canllawiau hynny'n gofyn i ddysgwyr brofi cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adlewyrchu chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad':

    - Y Celfyddydau Mynegiannol
    - Iechyd a Lles
    - Y Dyniaethau
    - Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
    - Mathemateg a Rhifedd
    - Gwyddoniaeth a Thechnoleg

3. Dylai fod gan ysgolion ac ymarferwyr fethodoleg ar gyfer cynllunio cwricwlwm sy'n ymgorffori, lle y bo'n briodol, gyfleoedd i ddysgu ac ystyried themâu trawsgwricwlaidd. Dylai'r rhain ganiatáu i ddysgwyr ystyried a datblygu dealltwriaeth o:

    - Gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
    - Addysg cydberthynas a rhywioldeb
    - Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth
    - Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.

4. Mae thema trawsgwricwlaidd cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol[1] y cwricwlwm, yn cynnwys y cyfle i ddysgwyr *'ddeall datblygu cynaladwy, yr heriau*

[1] Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm Hwb (llyw.cymru)

a wynebir gan yr amgylchedd a chymdeithas a sut y gallan nhw ymgysylltu â'r materion hyn a gwneud gwahaniaeth gan gefnogi dinasyddiaeth gynaladwy'.

5. Mae'r cwricwlwm yn defnyddio dull trawsnewidiol sy'n ymgorffori Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) drwy ddimensiwn rhyngwladol, a'i drydydd diben – datblygu dysgwyr i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus. Mae cynaladwyedd yn orfodol o fewn y cwricwlwm a bydd yn rhan o addysg pob dysgwr trwy gydol eu taith ddysgu.

6. Mae'r cwricwlwm hefyd yn rhoi pwyslais mawr ar yr ardal leol, neu'r hyn y mae'n ei alw'n gynefin[2]. Wrth wreiddio cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, bydd disgwyl i ysgolion chwilio am gyfleoedd i gefnogi dysgwyr i *'Ddatblygu ymdeimlad dilys o gynefin, gan ddatblygu gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau a hanes, a'u galluogi i feithrin ymdeimlad cryf o hunaniaeth unigol a deall sut y mae hyn yn cysylltu â dylanwadau ehangach ac wedi'u llywio ganddyn nhw'.*

Deddfwriaeth a Pholisi

7. Bydd Cymwysterau Cymru yn dod yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o fis Ebrill 2024. I adlewyrchu'r ffaith bod ein rôl yn cefnogi ei dibenion deddfwriaethol a bod ei gofynion yn gydnaws â'r ffordd yr ydym yn gweithio, fe wnaethom ddewis mabwysiadu ei darpariaethau'n wirfoddol a gosod a chyhoeddi amcanion ategol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

   Pan fyddwn ni'n comisiynu neu'n cyflwyno cymwysterau newydd, byddwn ni'n ystyried a oes budd mewn annog cyrff dyfarnu i ymgorffori gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy.

8. Mae Cymwysterau Cymru yn ddarostyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cynnwys cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Ym mis Mawrth 2021, adroddodd adolygiad annibynnol, dan gadeiryddiaeth yr Athro Charlotte Williams, ar wella addysgu themâu a phrofiadau sy'n ymwneud â phobl o grwpiau ethnig amrywiol ar draws pob rhan o'r cwricwlwm.

9. Gwnaeth yr adolygiad ddau argymhelliad mewn perthynas â Cymwysterau Cymru:[3]

[2] Diffinnir Cynefin fel 'y man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a lle mae'r golygfeydd a'r seiniau yn gysurus o hawdd eu hadnabod.'

[3] gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-a-chynefin- pobl-ddu-asiaidd-a-lleiafrifoedd-ethnig-yn-y-cwricwlwm-newydd: adroddiad-terfynol (llyw.cymru)

- *Dylai Cymwysterau Cymru ystyried ffyrdd priodol o gefnogi amrywiaeth wrth gynllunio cymwysterau wrth iddo ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gynnwys pwnc a pharamentau dylunio cymwysterau TGAU i Gymru.*
- *Dylai Cymwysterau Cymru weithio'n agos gyda chyrff dyfarnu i sicrhau bod manylebau ar gyfer cymwysterau Gwneud-i-Gymru, lle bo hynny'n briodol, yn adlewyrchu addysg am amrywiaeth.*

10. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru[4] hefyd yn rhoi ystyriaethau cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (ac unigolion) wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

Ail-lunio'r Cynnig Cymwysterau Llawn 14-16

11. Trwy ein gwaith *Cymwys ar gyfer y dyfodol*, rydym yn llunio sut olwg fydd ar gymwysterau newydd sy'n cefnogi uchelgais y cwricwlwm ac sy'n diwallu anghenion dysgwyr 14-16 oed yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys creu cymwysterau TGAU newydd Gwneud-i-Gymru ac ystod o gymwysterau eraill Gwneud-i-Gymru i ddiwallu anghenion pob dysgwr yn y dyfodol.

12. Bydd yr holl gymwysterau hyn yn rhan o'r cynnig cymhwyster llawn ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed yng Nghymru o fis Medi 2027. Mae'r 'Cynnig Cymwysterau Llawn 14-16' yn cyfeirio at yr holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed.

13. Ein man cychwyn ar gyfer datblygu'r cynigion ar unrhyw gymhwyster newydd oedd y Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, sy'n nodi'r gofynion a'r canllawiau y mae'n rhaid i ysgolion eu dilyn wrth gynllunio ei chwricwlwm eang a chytbwys ei hun.

14. Yn ganolog i'r fframwaith cyfan mae'r dyhead i bob plentyn a pherson ifanc wireddu pedwar diben y cwricwlwm. Un cyfrwng pwysig ar gyfer cefnogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ddull ysgol gyfan yw'r cyfleoedd a roddir iddynt ymgysylltu â'r themâu trawsgwricwlaidd.

[4] Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (llyw.cymru)

Safbwynt Polisi

15. Rydym am wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr drwy'r Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16 i ymgysylltu â themâu trawsgwricwlaidd y cwricwlwm a'u hystyried.

16. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod cymwysterau Gwneud-i-Gymru yn adlewyrchu ystod amrywiol o safbwyntiau, cyfraniadau a phrofiadau gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chymunedau ethnig amrywiol ledled Cymru.

17. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, ac yn unol â'r prosesau a ddisgrifir isod, bydd hyn yn gofyn am ymdrech ar y cyd - ymdrech a rennir gennym ni a chyrff dyfarnu sydd â'r dasg o ddatblygu cymwysterau i'w cymeradwyo.

18. Mae datblygu cymwysterau yn broses helaeth sy'n cynnwys llawer o bartneriaid a rhanddeiliaid pwnc. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i lwyddo.

19. Mae gan Cymwysterau Cymru a chyrff dyfarnu rolau a chyfrifoldebau penodol o ran datblygu cymwysterau yng Nghymru.

20. Fel rheolydd cymwysterau, rydym yn gyfrifol am gymeradwyo cymwysterau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag ystod o randdeiliaid - gan gynnwys dysgwyr, rhieni, athrawon, cyflogwyr, cyrff dysgedig a phroffesiynol, grwpiau â diddordeb mewn pynciau arbennig, prifysgolion, a cholegau addysg bellach - i ddylunio a datblygu cynigion ar gyfer cymwysterau mewn pynciau unigol.

21. Unwaith y bydd y cynigion hynny wedi'u cwblhau, rydym yn gosod ac yn cyhoeddi meini prawf cymeradwyo - meini prawf i'w defnyddio wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo ffurf ar gymhwyster a gyflwynir gan gorff dyfarnu. Gall y meini prawf cymeradwyo hyn gyfeirio at gymwysterau gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o gymwysterau.

22. Gan ddibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gall ein dull o osod meini prawf amrywio. Er enghraifft, efallai y byddwn yn penderfynu cyhoeddi meini prawf cymeradwyo sy'n disgrifio'r cynnwys manwl a'r asesiad ar gyfer pob cymhwyster unigol.

23. Mewn achosion eraill, efallai y byddwn yn penderfynu gosod gofynion dylunio lefel uchel o ran maint, lefel, a dull cyffredinol o asesu cymhwyster. Byddai dull gweithredu o'r fath yn rhoi mwy o sgôp a disgresiwn i gorff dyfarnu o ran y penderfyniadau y mae'n eu gwneud fel rhan o'i broses datblygu cymwysterau,

ar yr amod y gallant ddarparu digon o dystiolaeth briodol i gefnogi'r penderfyniadau y maent wedi'u gwneud.

24. Rhaid i gorff dyfarnu fodloni'r holl feini prawf perthnasol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru. Yna mae'r corff dyfarnu ac arbenigwyr pwnc, gan gynnwys athrawon, tiwtoriaid ac aseswyr, yn cynhyrchu manyleb cymhwyster drafft a deunyddiau asesu enghreifftiol sy'n mynd i'r afael â'n meini prawf cymeradwyo cyhoeddedig. Rhaid i gorff dyfarnu hefyd gynhyrchu dogfen rhesymwaith cymhwyster yn egluro'r penderfyniadau a wnaed a sut y caiff y cymhwyster ei strwythuro a'i asesu.

25. Ein rôl ni yw adolygu'r deunyddiau a gyflwynir yn erbyn y meini prawf cymeradwyo ac ystyried i ba raddau y mae ffurf y cymhwyster a gyflwynir yn bodloni'r meini prawf hynny.

26. Lle mae adborth ar y deunyddiau hynny wedi'i ddarparu, bydd corff dyfarnu'n datblygu set wedi'i diweddaru o ddeunyddiau drafft i gymryd i ystyriaeth yr adborth a dderbyniwyd ar y drafft cyntaf. Gellir datblygu drafftiau pellach, os oes angen.

Cymhwyso themâu trawsgwricwlaidd

27. Wrth i ni ddatblygu, gosod a chyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar gyfer mathau o gymwysterau, byddwn yn gyfrifol am ystyried yn weithredol sut y gellir ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd, a'r cysyniadau allweddol oddi mewn iddynt, yn naturiol ac yn ddilys o lens pwnc-benodol i mewn i'r cymhwyster.

28. Bydd angen i gorff dyfarnu, fel rhan o'n proses gymeradwyo, gyflwyno'r canlynol i'w cymeradwyo:

    - Dogfen manyleb cymhwyster
    - Deunyddiau asesu enghreifftiol, a
    - Dogfen esboniadol yn amlinellu'r rhesymeg dros nodweddion dylunio allweddol y cymhwyster TGAU arfaethedig (Dogfen Resymeg).

29. Bydd y graddau y bydd yn ofynnol i gorff dyfarnu, drwy ei Ddogfen Resymegol cymhwyster, esbonio sut y bydd cynnwys ac asesiad ei gymhwyster yn cefnogi'r cwricwlwm, gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu ac ymgysylltu â themâu trawsgwricwlaidd y cwricwlwm, yn dibynnu ar ymagwedd a gymerwyd wrth osod y meini prawf cymeradwyo.

30. Ar gyfer y cymwysterau hynny lle mae meini prawf cymeradwyo cyhoeddedig wedi nodi cyfleoedd naturiol a dilys i ddysgwyr ymgysylltu â themâu trawsgwricwlaidd y cwricwlwm, byddwn yn disgwyl i gorff dyfarnu fodloni meini prawf sy'n rhagnodi'r gofynion hynny'n benodol.

31. Fel rhan o'n gwaith ar ddatblygu cymwysterau TGAU newydd, Gwneud-i-Gymru a chymwysterau 14-16 cysylltiedig, rydym eisoes wedi gwneud hyn ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad y cwricwlwm.

32. Ar gyfer pob cymhwyster a gyflwynir i'w gymeradwyo fel rhan o'r Cynnig Llawn 14-16, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu, drwy'r Ddogfen Resymegol, esbonio sut mae'r cymhwyster arfaethedig yn mynd i'r afael â themâu trawsgwricwlaidd y cwricwlwm. Rhaid i hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

    - Sut mae'r corff dyfarnu wedi ystyried a ellir cynnwys cyfleoedd yn ychwanegol at y rhai a ragnodwyd yn benodol yn y Meini Prawf Cymeradwyo perthnasol yng nghynllun y cymhwyster, ac i ba raddau.
    - Y ffactorau y mae wedi'u hystyried wrth benderfynu a ellir cynnwys cyfleoedd yn ychwanegol at y rhai a ragnodwyd yn y Meini Prawf Cymeradwyo perthnasol yn y cymhwyster, ac i ba raddau, a'r rhesymau dros ei benderfyniad yn hynny o beth.
    - Sut mae'r corff dyfarnu wedi sicrhau bod cynllun y cymhwyster yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gynrychioliadau, safbwyntiau, themâu a chyfraniadau, gan gynnwys rhai cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (ac unigolion). Wrth wneud hynny, bydd yn ofynnol i gorff dyfarnu esbonio sut y mae wedi:
        - Ystyried y defnydd o iaith a/neu derminoleg
        - Ystyried y dewis o adnoddau, a
        - Cheisio barn grwpiau amrywiol o bobl, gan gynnwys yr amrywiaeth o safbwyntiau a chyfraniadau a wneir gan gymunedau lleiafrifoedd ethnig (ac unigolion), drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, a sut mae'r safbwyntiau hynny wedi'u hystyried

33. Yn unol â'r dull a nodir yn ein dogfen bolisi Adolygu Datganiadau Polisi yn Gyson, byddwn yn parhau i adolygu'r datganiad polisi hwn ac yn cadw'r hawl i wneud newidiadau iddo ar unrhyw adeg.

Mehefin 2023